Blaenoriaethau Ysgol Dyffryn Conwy

2023-2026



EIN BLAENORIAETH YW ARWAIN YR YSGOL I RAGORIAETH DRWY:

1) DYSGU

1.1 Parhau i gryfhau perfformiad yr ysgol yn y dangosyddion cenedlaethol yn CA4 a CA5 er mwyn rhoi pob cyfle i ddysgwyr gyflawni eu potensial. (EG)

1.2 Cynnal a sicrhau cysondeb yn natblygiad medrau dysgwyr wrth wireddu cynlluniau Cwricwlwm i Gymru. (EG)

1.3 Gweithredu ymyraethau addas ac uchelgeisiol ymhob cyfnod allweddol er mwyn sicrhau cynnydd disgwyliedig grwpiau penodol o ddysgwyr. (EG/BEJ)

2) LLES AC AGWEDDAU AT DDYSGU

2.1 Parhau i gryfhau a gwella cyfraddau presenoldeb er mwyn sicrhau'r gefnogaeth ac anogaeth gorau i ddysgwyr. (RB)

2.2 Cryfhau strategaethau llais y dysgwr er mwyn sicrhau bod barn dysgwyr yn ganolog i ddatblygiadau ymhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. (JT)

2.3 Gweithredu ar fynnu'r safonau uchaf mewn perthynas ag agwedd at ddysgu ac ymddygiad drwy wneud defnydd effeithiol o Class Charts er mwyn sicrhau amgylchedd lle mae pob dysgwr yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. (RB)

3) ADDYSGU A PHROFIADAU DYSGU

3.1 Parhau i gysoni strategaethau addysgu a dysgu effeithiol gyda ffocws ar lefel yr her, gwahaniaethu, asesu a phedagogaeth er mwyn rhoi'r cyfle gorau i ddysgwyr gyflawni eu potensial. (EG)

3.2 Datblygu darpariaeth trochi CA2-3 yr Ysgol drwy gydweithio effeithiol gyda'r clwstwr er mwyn sicrhau bod sgiliau iethyddol dwyieithog y dysgwyr yn gadarn wrth drosglwyddo. (OGD)

3.3 Grymuso gweithdrefnau cefnogi Athrawon Pontio Cynradd – Uwchradd ac Athrawon Cysylltiol sydd yn cael eu lleoli yn yr Ysgol er mwyn cynnal a sicrhau'r safonau uchaf o ran addysgu a dysgu. (TC)

4) GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD

4.1 Cynnal a gwireddu prosesau cyflwyno'r Bill ADY newydd yn effeithiol ac effeithlon er mwyn rhoi'r cyfle gorau i ddysgwyr gyflawni eu potensial. (RE)

4.2 Sicrhau bod iechyd a lles yn ganolog wrth sicrhau bod dysgwyr, rhieni, gofalwyr, staff a llywodraethwyr yn cydweithio er mwyn ystyried lles emosiynol ac anghenion y gymuned. (JT)

5) ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

5.1 Parhau i sicrhau cysondeb ym mhrosesau gwarantu ansawdd fel eu bod yn arwain at gynnydd dysgwyr ar bob lefel. (JT)

5.2 Grymuso arweinwyr rhagorol sy'n ffocysu'n glir ar safonau er mwyn cynnig y cyfle orau i ddysgwyr gyflawni eu potensial. (JT)

5.3 Parhau i sicrhau bod y corff Llywodraethol yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad yr ysgol wrth gynnig her a chefnogaeth ar bob lefel. (OGD)

5.4 Parhau i ddatblygu a gwreiddio diwylliant o 'hyfforddi' (coaching) ar bob lefel. (OGD)

GYDA'N GILYDD CYRHAEDDWN EIN POTENSIAL